
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Crynodeb Ymgysylltu Llais Rhanbarth Gwent

## Cartref Gofal Preswyl Tŷ Penpergwm

Hydref 2023



**Fformatau hygyrch**

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Gymraeg.

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Gallwch ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa:

01633 838516

gwentenquiries@llaiscymru.org

Llais Rhanbarth Gwent,

Tŷ Rhaglan,

Clos William Brown

Cwmbrân

NP44 3AB

www.llaiscymru.org

www.llaiswales.org

# Cefndir:

Mae Llais yn gorff statudol annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llawer mwy o ddweud i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol — yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Fel rhan o'n cynllun gwaith lleol, mae Llais Rhanbarth Gwent wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl ar y pwynt maen nhw'n derbyn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, gwnaethom drefnu i ddau o'n gwirfoddolwyr ymweld fynd i Gartref Penpergwm (Cartref Preswyl) i siarad â phobl sy'n byw yno, i gael eu hadborth am sut brofiad yw aros yn Nhŷ Penpergwm, a'u mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Cartref Preswyl Tŷ Penpergwm yn gartref gofal teuluol yng nghanol Sir Fynwy (rhwng Y Fenni a Rhaglan). Mae Tŷ Penpergwm yn cynnig 34 o ystafelloedd ar gyfer cleientiaid. Mae lleoedd parhaol a lleoliadau arhosiad byr/seibiant ar gael, a chroesewir ymwelwyr ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i'w cleientiaid – nid y cartref.[1]

Ym mis Gorffennaf 2023, gwahoddwyd ein Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Monitro a Chraffu, a'n Cyfarwyddwr Rhanbarthol i ymweld â Thŷ Penpergwm, a rhoddwyd taith o amgylch y cartref iddynt gan y Rheolwr Preswyl.

Yn dilyn hyn, gwahoddwyd ein gwirfoddolwyr i fynychu Tŷ Penpergwm i siarad â'u trigolion. Roeddem yn ofalus i beidio â tharfu ar amseroedd bwyd.

Ar ddydd Llun 16[eg] o Hydref 2023, mynychodd dau o'n gwirfoddolwyr ymweld â Thŷ Penpergwm, a chawsant daith o amgylch y cartref gan y Rheolwr Preswyl. Siaradodd ein gwirfoddolwyr â phedwar cleient a oedd yn hapus i roi eu hadborth am sut brofiad yw byw yn Nhŷ Penpergwm.

Mae'r briff hwn yn cynnwys crynodeb o'r adborth a roddodd pobl yn ystod ein hymweliad.

[1] Gofal Preswyl - Cartref Gofal Preswyl Tŷ Penpergwm

## Adborth a gawsom:

Ymgysylltodd pedwar o bobl sy’n byw yng Nghartref Penpergwm yn hapus â’n gwirfoddolwyr ymweld i sgwrsio am fyw yn Nhŷ Penpergwm.

Er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chleientiaid yn briodol, ni chymerodd ein gwirfoddolwyr ymweld arolygon i'w cwblhau. Yn lle hynny, rhoddwyd cwestiynau 'annog' i ddechrau sgwrs ddigymell a naturiol.

Ar y cyfan, dywedodd cleientiaid yn Nhŷ Penpergwm eu bod yn hapus iawn yn byw yno. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo’n *“ddiogel”* ac yn *“fodlon”,* tra bod eraill yn dweud wrthym ei fod yn *“teimlo fel cartref”.*

Os oedd angen i bobl gael mynediad at wasanaethau GIG neu ofal cymdeithasol, trefnid hyn ar eu cyfer gan staff.

Roedd pobl yn gweld staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd ati, a dywedodd un person wrthym fod staff bob amser yn hapus i wrando arnyn nhw.

Roedd yna weithgareddau i bobl gymryd rhan ynddynt yn Nhŷ Penpergwm, dywedodd un person wrthym nad ydyn nhw'n cymryd rhan yn y gweithgareddau, ond roedden nhw'n hapus yn eistedd yn yr ystafell ddydd i gael te.

Roedd cleientiaid yn fodlon gyda'r bwyd a'r diodydd a gynigiwyd yng Nghartref Penpergwm; dywedodd un person wrthym fod *“lot o fwyd cartrefol hyfryd*”.

Sylwadau pellach:

*“Mae’n well gennyf fod yma na gartref ar fy mhen fy hun”.*

*“Pobl dda - methu disgwyl gormod”.*

**Atodiad 7**

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Cwblhewch y tabl canlynol i nodi a fydd polisi/gweithgaredd/adroddiad Llais yn effeithio'n andwyol, yn gadarnhaol, yn wahanol ar y grwpiau canlynol neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl.

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | X | | | |
| Anabledd | X | | | |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | X | | | |
| Ailbennu rhywedd | X | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | X | | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | X | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Iaith Gymraeg | | | X | Mae adroddiadau ac arolygon ar gael a'u cyhoeddi'n ddwyieithog |
| Ieithoedd Eraill | | X | | Gellir cyhoeddi adroddiadau ac arolygon mewn iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau Dynol | X | | | |
| Lefel tlodi | X | | | |
| Pobl â dibynyddion | X | | | |
| Preswylfa wledig | X | | | |
| Cymunedau sipsiwn a theithwyr | X | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn agored i niwed yn ddigidol | X | | | |

**Asesiad risg**

| |
|---|
| **A oes unrhyw risgiau sy'n deillio o weithredu'r polisi hwn?**<br>Amh |
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?**<br>Amh |
| **Iaith Gymraeg**<br>Aseswyd y ddogfen/polisi/adroddiad hon yn unol â'n gofynion Iaith Gymraeg ar gyfer safonau:<br>37,38<br>69,70,71<br>Wrth benderfynu ar effaith, gallwn ddangos tystiolaeth o’r canlynol:<br>Mae holl ddogfennau cyhoeddus Llais ar gael yn Gymraeg a Saesneg.<br>Mae Llais yn cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus a'u nodi fel rhai cadarnhaol ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.<br><br>**Canlyniad**<br>Effaith gadarnhaol —<br>Safonau 37, 38 — Mae'r holl ddogfennau cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.<br>Safonau 69-71 - Rydym yn cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel rhai cadarnhaol ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.<br>Effaith Negyddol - Dim |